# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**
Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2019
Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Bethan Davies**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6372
SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09:30) (Tudalennau 1 - 10)

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2019
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2019

### 2.1 Llythyr gan Suzy Davies AC mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar graffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2020-21

(Tudalennau 11 - 22)

### 2.2 Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Proses gyllidebol Seland Newydd

(Tudalennau 23 - 25)

### 2.3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid at y Llywydd: Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2019

(Tudalennau 26 - 37)

### 2.4 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

(Tudalennau 38 - 41)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(09:30)

## 4 Briff technegol: Rhagolygon ar gyfer Trethi Cymru

(09:30–10:30) (Tudalennau 42 - 44)

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru

Julian Revell, Pennaeth Dadansoddiad Cyllidol, Trysorlys Cymru

Papur 1 – Papur cefndir

## Egwyl 10:30–10:40

## 5 Sesiwn friffio breifat: Gwaith monitro Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyllideb Llywodraeth Cymru - y canfyddiadau allweddol hyd yn hyn

(10.40–11.40) (Tudalennau 45 - 47)

Cathy Madge, Arweinydd Ysgogi Newid, Swyddfa'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Eurgain Powell, Ysgogwr Newid, Swyddfa'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Papur 2 - Papur briffio

## 6 Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2018–19 a'r Amcangyfrif ar gyfer 2020–21: Trafod yr adroddiad drafft

(11.40–12.00) (Tudalennau 48 - 62)

Papur 3 – Papur eglurhaol

Papur 4 – Gohebiaeth ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Papur 5 – Adroddiad drafft

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Hydref 2019

Amser: 09.32 - 10.49

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5774

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Alun Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC<br>Russell George AC<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Hefin David AC<br>Vikki Howells AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Ifan Glyn, Federation of Master Builders<br>Catherine Griffith-Williams, SEC Grŵp<br>Rudi Klein, SEC Grŵp<br>Kyle Spiller, Sefydliad Siartredig Adeiladu Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Leanne Hatcher (Ail Glerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Lara Date (Ail Glerc)<br><br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br><br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rhianon Passmore a Bethan Sayed.

## 2 Sesiwn dystiolaeth: Taliadau cadw yn y sector adeiladu

2.1 Cafodd y Pwyllgorau ar y cyd dystiolaeth gan yr Athro Rudi Klein, Bargyfreithiwr, Pennaeth y Grŵp Contractwyr Peirianneg Arbenigol (SEC); Catherine Griffith-Williams, Swyddog Gweithredol Cenedlaethol Cymru, Grŵp SEC; Kyle Spiller MCIOB, Cyfarwyddwr SAM Drylining Ltd (yn cynrychioli Sefydliad Adeiladu Siartredig Cymru); ac Ifan Glyn, Uwch-gyfarwyddwr Hyb/Cyfarwyddwr Cymru, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr ar daliadau cadw yn y sector adeiladu.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4.

3.1 Cymeradwywyd y cynnig.

## 4 Trafod y dystiolaeth: Taliadau cadw yn y sector adeiladu

4.1 Ystyriodd y Pwyllgorau ar y cyd y dystiolaeth a dderbyniwyd ar daliadau cadw yn y sector adeiladu.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Hydref 2019

Amser: 09.33 - 11.35

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5775

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Alun Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Tim Edds, Llywodraeth Cymru<br>David Meaden, Public Services Ombudsman for Wales Office<br>Vaughan Gething AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Katrin Shaw, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Alex Slade, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc) |

| | |
|---|---|
| | Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br><br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br><br>Samantha Williams (Dirprwy Glerc)<br><br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br><br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br><br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br><br>Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Datganodd Alun Davies fuddiant.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Amcangyfrifon 2020-21: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau; a David Meaden, Cyfrifydd Ariannol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o ran o'r cyfarfod (eitemau 5, 7 ac 8)

4.1 Cymeradwywyd y cynnig.

## 5 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Amcangyfrifon 2020-21: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

6.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gofal

Sylfaenol, Llywodraeth Cymru; a Tim Edds, Cyfreithiwr, Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Llywodraeth Cymru.

## 7 Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Trafod adroddiad drafft ar gynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i ystyried adroddiad diwygiedig maes o law.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 7 Tachwedd 2019

Amser: 09.01 - 11.14

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5776

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Alun Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Isobel Everett, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Steve O'Donoghue, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Kevin Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Samantha Williams (Dirprwy Glerc)<br><br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br><br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papur.

### 2.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - Adroddiad ar Alldro 2018-19

## 3 Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Isobel Everett, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru; Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid ac AD, Swyddfa Archwilio Cymru; a Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'i waith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, o'r cyfarfod nesaf ar 13 Tachwedd 2019 yn ei gyfanrwydd ac o ddechrau'r cyfarfod ar 21 Tachwedd 2019.

4.1 Cymeradwywyd y cynnig.

## 5 Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trafod y dystiolaeth

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunwyd i ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.22.

## 6 Goblygiadau ariannol Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2019

Amser: 09.31 - 10.51

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5777

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Alun Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Laura Fox, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Hewitt, Llywodraeth Cymru<br>Gareth McMahon, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Samantha Williams (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a’r tystion i’r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AC.

## 2 Briff technegol: Gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth trethi Cymru

2.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio technegol gyda Gareth McMahon, Cyfreithiwr y Llywodraeth; Andrew Hewitt, Trysorlys Cymru; a Laura Fox, Trysorlys Cymru ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth trethi Cymru.

## 3 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Amcangyfrifon 2020-21: Trafod yr adroddiad drafft

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad drafft.

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Y dull o gynnal gwaith craffu

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dull diwygiedig o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 a chytunodd ar y dull gweithredu.

## 5 Dull o graffu ar ddeddfwriaeth sydd ar ddod

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur ar y dull o graffu ar ddeddfwriaeth sydd ar ddod.

## 6 Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i ystyried drafft diwygiedig ar 27 Tachwedd 2019.

Eitem 2.1

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

**National Assembly for Wales**
Assembly Commission

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Tachwedd 2019

Annwyl Llyr

Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at newid yng nghyllideb y Comisiwn yn sgil mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Defnyddir y mynegai hwn i gyfrifo codiadau yng nghyflogau Aelodau. Mae **Atodiad 1** yn darparu rhagor o wybodaeth am y newid hwn yn llinell gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Diolch hefyd am adroddiad eich Pwyllgor, **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-2021**, a gyhoeddwyd ar 17 Hydref 2019. Mae ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid i'w weld yn **Atodiad 2**.

Rydym yn nodi sylwadau'r Pwyllgor ac yn eu croesawu. Fodd bynnag, rwy'n pryderu bod y Pwyllgor yn teimlo y gallai'r wybodaeth ynghylch niferoedd staff fod yn fwy tryloyw. Roeddwn i'n meddwl, felly, y gallai fod yn ddefnyddiol pe baem yn rhoi crynodeb i'r Pwyllgor o sut mae sefyllfa'r Comisiwn wedi datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hwn wedi'i nodi yn **Atodiad 3**.

Rwyf hefyd wedi cynnwys, yn ôl y gofyn, nodyn ar waith cynllunio'r Comisiwn ar gyfer Brexit. Mae'r nodyn hwn i'w weld yn **Atodiad 4**.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu ac rwy'n edrych ymlaen at y ddadl ar y cynnig ynghylch cyllideb y Comisiwn yr wythnos nesaf.

Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd ddidwyll, tryloyw a chlir, felly mae croeso ichi gysylltu â mi os hoffai eich Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

Yn gywir

Suzy Davies AC

cc Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

## Atodiad 1
## Newid i Gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

Roedd cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2020-21 yn cynnwys swm o £15.813 miliwn i ariannu gofynion Penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Mae cyflogau Aelodau'r Cynulliad yn cael eu haddasu bob blwyddyn, fel y nodir yn y Penderfyniad. Mae cyflogau Aelodau yn gysylltiedig yn uniongyrchol â newidiadau ym mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Ym Mhenderfyniad 2019-20, roedd cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad hefyd yn gysylltiedig â mynegai ASHE.

Nododd cyllideb ddrafft y Comisiwn (tudalen 27) fod y ffigurau drafft yn cynnwys amcangyfrif o'r newid yn y mynegai, sef 2.0%. Ar 29 Hydref 2019, cyhoeddwyd y mynegai ASHE diweddaraf a'r cynnydd yn y mynegai yw 4.4%. Mae'r swm ychwanegol hwn (tua £360,000) yn un sylweddol ac felly mae wedi cael ei ymgorffori yn nogfen y gyllideb derfynol a osodir ar 6 Tachwedd 2019. Mewn blynyddoedd blaenorol nid yw'r amcangyfrif wedi amrywio rhyw lawer o'r mynegai a gyhoeddwyd, ac ni fu angen newid y gyllideb ddrafft.

Mae Tabl 9 (tudalen 35) wedi cael ei ddiwygio yn nogfen y gyllideb derfynol. Mae'r tabl newydd yn dangos y symiau canlynol ar gyfer 2020-21 a blynyddoedd i ddod:

***Tabl 1: Dadansoddiad 'Cyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig'****

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyn IFRS 16** | **IFRS 16** | | |
| Cyflogau a chostau parhaus Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | £8,568 | £8,797 | £8,797 | £9,184 | £9,588 |
| Lwfans a Chostau Swyddfa | £1,809 | £1,831 | £1,831 | £1,864 | £1,899 |
| Swyddi Gwag / Trosiant Staff | (£500) | (£1,000) | (£1,000) | (£1,000) | (£500) |
| Cyfanswm | £16,197 | £16,172 | £16,172 | £16,881 | £18,120 |

Mae'r cyfansymiau newydd hyn hefyd yn rhan o dablau crynhoi'r gyllideb (tablau 1, 2 a 3) ar dudalennau 30, 31 a 32. Mae'r tablau hyn hefyd wedi cael eu diweddaru. I grynhoi, mae cyfanswm gofyniad y gyllideb ar gyfer 2020-21 wedi cynyddu o £61.052 miliwn i £61.411 miliwn, ac erbyn hyn y gofyniad arian parod net ar gyfer 2020-21 yw £56.075 miliwn.

**Atodiad 2**
**Argymhellion y Pwyllgor Cyllid**

Argymhelliad 1.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu rhagor o fanylion am y prosiect meddalwedd deddfwriaeth ym mis Mehefin 2020 pan fydd mwy o fanylion, gan gynnwys costau, am y prosiect yn hysbys a bod y contract wedi'i ddyfarnu.

Derbyniwyd. Unwaith y bydd mwy o fanylion yn hysbys am y prosiect meddalwedd deddfwriaeth, bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid gyda rhagor o wybodaeth.

Argymhelliad 2.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu manylion i'r Pwyllgor, tua mis Mehefin 2020, am y gwaith cynllunio prosiect tymor hir sy'n cael ei wneud.

Derbyniwyd. Bydd Comisiwn y Cynulliad yn darparu mwy o fanylion i'r Pwyllgor am ei waith cynllunio prosiect tymor hir, ochr yn ochr â'i gynigion cyllidebol ar gyfer 2021-22, erbyn 1 Hydref 2020.

Argymhelliad 3.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod adroddiad ariannol blynyddol ar fuddion tymor hir, gan gynnwys arbedion parhaus, y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor gan nodi sut mae'r cynllun wedi cyflawni'r nodau a nodwyd, yn benodol "Cyflawni arbedion hirdymor pan fo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fynd i'r afael â diffyg sgiliau".

Bydd adroddiad ar fuddion y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a sut y mae wedi cyflawni ei nodau datganedig yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2020.

Argymhelliad 4.

Gan fod Comisiwn y Cynulliad o'r farn y dylai cefnogaeth staffio'r Comisiynydd Safonau fod y tu allan i gap sefydliad Comisiwn y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn argymell bod angen gwneud gwaith i sicrhau bod y Gyllideb ddrafft hon a Chyllidebau drafft y dyfodol yn nodi adnoddau ar gyfer y Comisiynydd Safonau.

Derbyniwyd. Bydd Comisiwn y Cynulliad yn diwygio ei Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2020-21 i nodi adnoddau ar gyfer y Comisiynydd Safonau. Bydd y wybodaeth hon

yn cael ei chynnwys yn y naratif ar dudalen naw ac yn nhabl pedwar yn y Gyllideb Derfynol i'w gosod ar 6 Tachwedd 2019, ac o fewn cyllidebau yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i ymateb i ofynion adnoddau'r Comisiynydd Safonau yn unol â'r gofynion statudol.

Argymhelliad 5.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell, pan fydd y Comisiwn yn gofyn i'r Cynulliad awdurdodi polisïau, yna mae angen rhoi manylion mwy tryloyw i'r Aelodau ar y pryd ynghylch y costau ariannol a'r trefniadau atebolrwydd yn y dyfodol o amgylch y polisïau hyn, y dylai hyn gynnwys y mecanwaith ar gyfer cyfrifo cynnydd staffio a'r cyfiawnhad dros hyn.**

Derbyniwyd. Mae yna waith llywodraethu yn digwydd ynghylch y ffordd rydym yn darparu adnoddau, gan gynnwys i'r Comisiynydd Safonau, a bydd y gwaith hwn yn parhau.

Mae sgyrsiau yn mynd yn eu blaen rhwng y Comisiwn, y Pwyllgor Safonau a'r Comisiynydd Safonau ynghylch trefniadau adnoddau a llywodraethu yn y dyfodol. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith inni ddarparu'r adnoddau y mae eu hangen ar y Comisiynydd Safonau i gyflawni ei swyddogaethau.

Argymhelliad 6.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer codi ymwybyddiaeth o roi'r bleidlais i bobl ifanc 16 oed ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau ymgyrch gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth.**

Derbyniwyd. Mae'r Comisiwn wedi blaenoriaethu £150,000 ar gyfer gwaith i godi ymwybyddiaeth am ostwng yr oedran pleidleisio i 16 yng nghyllideb 2020-21 (o fewn y costau cyn-etholiad o £500,000) a byddwn yn parhau i weithio'n rhagweithiol gyda'r sefydliadau a restrir uchod.

## Atodiad 3
## Tryloywder wrth wneud penderfyniadau ynghylch nifer staff

I fynd i'r afael â gofid y Pwyllgor **"nad oes mwy o dryloywder wrth wneud penderfyniadau ynghylch nifer staff" (tudalen 19)**, mae'r nodyn canlynol yn amlinellu'r meddylfryd sy'n datblygu yn y Comisiwn am ei drefniadaeth.

Ym mis Hydref 2017, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylai nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn y Cynulliad aros yn yr unfan ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Mewn gwirionedd, 442.79 oedd y nifer cyfwerth ag amser llawn yn 2018-19, o'i chymharu â 451.19 yn 2017-18. Fodd bynnag, nid yw cynnal nifer cyfwerth ag amser llawn am gyfnod penodol yn fesur ymarferol ar gyfer unrhyw sefydliad, gan fod y nifer cyfwerth ag amser llawn yn gallu newid yn ddyddiol oherwydd pobl yn ymadael, yn mynd ar secondiad, yn mynd ar gyfnod mamolaeth ac yn rhannu swyddi, er enghraifft. Ar ôl edrych yn galed ar sut i ymateb yn gadarnhaol i'r egwyddor sy'n sail i argymhelliad y Pwyllgor Cyllid, daethom i'r casgliad mai'r peth gorau i'w wneud fyddai canolbwyntio ar gynnal nifer benodol o swyddi, gan feincnodi yn erbyn y man cychwyn o 491 yn 2017. Byddem hefyd yn ymrwymo i weithio o fewn y cap hwn cyhyd ag y bo modd a cheisio ei amrywio gyda chaniatâd Comisiwn y Cynulliad yn unig.

Rydym wedi llwyddo ers 18 mis i gynnal nifer y swyddi ar y cap hwn neu islaw iddo, gan ymateb i dwf sylweddol yn y galw am wasanaethau'r Comisiwn. Rydym wedi llwyddo i wneud hyn drwy gyflwyno mwy o ddisgyblaeth ynghylch dyrannu swyddi, ceisio ail-flaenoriaethu swyddi gwag i ddiwallu gofynion newydd, craffu'n fwy ar gynlluniau adnoddau gwasanaethau unigol a mynd ati i geisio cyfuno rolau lle bo hynny'n bosibl, fel bod dwy swydd yn troi'n un. Mae Bwrdd Gweithredol y Comisiwn wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am wneud pob penderfyniad ynghylch ceisiadau am adnoddau ac mae'r Comisiwn wedi cael ei hysbysu'n rheolaidd am ganlyniad y penderfyniadau hyn.

Yn ogystal, rydym wedi hysbysu'r Pwyllgor am gynnydd yn y pwysau ar ein cyfanswm staff wrth i anghenion newydd ddod i'r amlwg, yn fwyaf arbennig y gofynion sy'n deillio o Brexit.  Mae'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ill dau wedi'n herio ynghylch ein cynlluniau adnoddau ar gyfer Brexit, gan ein hannog hefyd i ystyried llesiant staff a'r cynnydd mewn absenoldeb o'r gwaith oherwydd straen.

Yn amlwg, fe wnaethom nodi yng Nghyllideb 2019-20 uchelgais i reoli:

*“adnoddau staffio yn gadarn i ddiwallu anghenion y Cynulliad, o fewn y 491 o swyddi penodedig y sefydliad, tan yr etholiad nesaf”.*

Fodd bynnag, yn ystod sesiwn graffu’r Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ar 3 Hydref 2018, fe wnaethom rybuddio y gallai fod angen newid hyn:

*“we are at the moment staying within that establishment post count of 491”*

a gwnaethom ailadrodd hyn yn ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor ynghylch cyllideb 2019-20, gan nodi y byddem yn gweithio:

*“cyhyd ag sy’n bosibl, o fewn cap cyffredinol y sefydliad o 491 o swyddi”*

Cafodd y newid hwn yn ein huchelgais i weithio o fewn cap penodedig y sefydliad ei yrru'n benodol gan yr angen i sicrhau y gallem barhau i gefnogi’r Aelodau a'r Cynulliad i fynd i'r afael â'r llwyth gwaith cynyddol a ddaw yn sgil paratoadau Brexit. Yn hyn o beth, nid ni oedd yr unig gorff i gydnabod yr angen am adnoddau, gyda Llywodraeth Cymru a Seneddau'r Alban a'r DU oll yn nodi anghenion tebyg am adnoddau. Yn ystod y misoedd canlynol, daeth yn fwyfwy amlwg drwy ein prosesau blaengynllunio na fyddai'r mesurau yr oeddem wedi'u cyflwyno i reoli'r galw o fewn yr adnoddau sydd ar gael ond yn mynd mor bell, ac y byddai angen i ni ystyried opsiynau eraill os oeddem am osgoi peryglu ein nod o ddarparu cymorth seneddol rhagorol.

Felly fe wnaethom ni gyflwyno Cynllun Ymadael Gwirfoddol i ryddhau capasiti yn y sefydliad i ailddyrannu swyddi, ailstrwythuro gwasanaethau i ganolbwyntio ar ofynion â blaenoriaeth a gwella’n gallu i ymateb i'r heriau hyn.

Ysgrifennodd y Prif Weithredwr at y Pwyllgor ar 20 Tachwedd 2018 yn ei hysbysu bod y Comisiwn wedi cytuno i gynnal Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Yn y llythyr, dywedom:

*“Bydd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn helpu i sicrhau y gall y Comisiwn barhau i ddarparu'r sgiliau, yr arbenigedd a'r gallu angenrheidiol i gefnogi'r Cynulliad drwy'r heriau penodol a ddaw yn sgil Brexit a Newid Cyfansoddiadol, wrth barhau i weithio, cyhyd ag sy’n bosibl, o fewn cap cyffredinol y sefydliad o 491 o swyddi.”*

Llwyddodd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol i ryddhau 24 o swyddi, ond erbyn dechrau 2019 roedd yn amlwg na fyddai hyd yn oed hyn yn ddigonol i fynd i’r

afael ag anghenion adnoddau uniongyrchol a chynyddol y Comisiwn, sy'n cael eu gyrru gan Brexit.

Yn ei gyfarfod ar 1 Ebrill 2019, gofynnwyd i'r Comisiwn gytuno i ganiatáu cynnydd cymedrol a rheoledig i'r sefydliad, y tu hwnt i 491 ac y gallai cynnydd o hyd at 10 swydd gael ei ariannu o'r gyllideb staffio bresennol - oherwydd lefelau trosiant. Roedd angen chwe swydd ar unwaith er mwyn darparu cymorth clercio ychwanegol oherwydd swm y ddeddfwriaeth Brexit a'r capasiti cyfieithu, gan gynnwys arbenigedd cyfieithu deddfwriaeth. Gan i'r Comisiwn gytuno â hyn, aeth nifer y swyddi o 491 i 497, ond gan gydnabod y gallai fod angen i'r sefydliad gynyddu i 501.

Ar 3 Mai 2019, ysgrifennodd y Prif Weithredwr at y Pwyllgor Cyllid yn ei hysbysu am benderfyniad y Comisiwn i gytuno ar gynnydd yn nifer y swyddi o 491 i 497 – ar gyfer y chwe swydd a nodir uchod.

Mae cyllideb ddrafft 2020-21 yn egluro ymhellach y pwysau y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu ac yn nodi'r cynnydd yng nghap y sefydliad i 501. Fodd bynnag, 497 yw nifer y swyddi sydd wedi'u llenwi o hyd, fel y dywedwyd wrth y Pwyllgor ym mis Mai 2019, ac ar hyn o bryd rydym yn bodloni'r galw gyda'r nifer hon o ganlyniad i'n gwaith cynllunio manwl a thrwy barhau i fod yn ddisgybledig a blaenoriaethu fel y nodir uchod. Pe bai unrhyw ofyniad i gynyddu y tu hwnt i 497 yn angenrheidiol, yna byddem yn ceisio cytundeb y Comisiwn yn yr un modd ag y gwnaethom ar gyfer y cynnydd o 491 i 497.

Mae dwy swydd y Comisiynydd Safonau y tu allan i'r cap hwn gan nad yw o fewn pŵer y Comisiwn i reoli na chyfyngu ar yr adnodd hwn. Rydym yn nodi'r argymhelliad ar wahân gan y Pwyllgor ynghylch y mater hwn ac rydym yn edrych ymlaen at sgwrs bellach ar y mater.

## Atodiad 4
## Parodrwydd ar gyfer Brexit

### Y Dirwedd Risg

Hyd yn hyn, mae Brexit wedi cael yr effaith fwyaf ar y Cynulliad yn rhinwedd ei waith fel deddfwrfa.

Mae'r ansicrwydd hirsefydlog ynghylch amseru ymadawiad y DU â'r UE a thelerau unrhyw ymadawiad wedi creu heriau o ran cynllunio sut rydym yn darparu adnoddau ar gyfer y gwaith y mae angen i'r Cynulliad ei gyflawni fel deddfwrfa.

Mae gwaith rheolaidd ar gynllunio senarios manwl wedi'n helpu i nodi pwysau a materion a allai godi o bob un o'r senarios yr ydym yn debygol o'u hwynebu ddiwedd mis Hydref 2019, h.y. y cytunir ar Gytundeb Ymadael cyn diwedd mis Hydref, bod estyniad i Erthygl 50, neu fod y DU yn gadael yr UE heb gytundeb.

O dan bob senario, bydd cynnydd yng nghyfanswm y busnes ar fyr rybudd. Mae'n debygol y byddai busnes yn cynyddu am gyfnod hirach o dan senario dim cytundeb. Er y byddai estyniad i gyfnod negodi Erthygl 50 yn caniatáu mwy o amser ar gyfer cynllunio a phasio deddfwriaeth, mae'n debygol y byddai cyfnod dwys o weithgaredd tuag at ddiwedd unrhyw estyniad. Wedi dweud hynny, gwnaed y mwyafrif o'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth yn ystod cyfnod hynod o brysur i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac i'r Gwasanaethau Cyfreithiol cyn y dyddiad ymadael blaenorol ym mis Mawrth 2019.

Waeth pa senario Brexit fydd yn digwydd, rydym wedi bod yn cynllunio ar gyfer gwaith ar ôl Brexit. Bydd gan y Cynulliad rôl allweddol i'w chwarae wrth graffu ar fframweithiau polisi cyffredin a chytundebau rhyngwladol newydd y DU gyfan, gan gynnwys cytundebau masnach, yn y misoedd i ddod. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ail-gydbwyso adnoddau staff ymhellach, ac asesu'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i gefnogi gwaith craffu effeithiol ar drefniadau newydd ledled y DU ar ôl Brexit.

Mae Brexit hefyd yn debygol o gael effaith ar wasanaethau corfforaethol y Comisiwn, ac unwaith eto, bydd maint ac amseru'r effeithiau hyn yn dibynnu ar delerau ymadawiad y DU â'r UE.

Byddwn yn ceisio lleihau'r effeithiau ariannol ar y Comisiwn a lliniaru yn erbyn yr angen am geisiadau cyllido ychwanegol, a hynny drwy barhau i ganolbwyntio ar feithrin sgiliau a chapasiti mewn meysydd wrth i'r galw godi.

Fel y soniwyd yn y sesiwn graffu, gallai senarios drud godi ac rydym wedi cynnal dadansoddiad o effaith Brexit dim bargen ar ein contractau gwasanaeth a chyflenwi mawr, gan gynnwys materion yn ymwneud â chaffael, er enghraifft arlwyo, caledwedd TG a chynnal a chadw cyfleusterau. Er nad ydym yn rhagweld problemau o ran cyflenwi, mae costau'n debygol o gynyddu. Mae'r asesiad o effaith Brexit dim bargen ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac ar gyfer 2020-21 yn nodi ei bod yn annhebygol y bydd y gost ychwanegol i'r gyllideb yn fwy na £50,000 - £100,000. Mae effeithiau posibl eraill yn ymwneud â llwythi gwaith a sicrhau ein bod yn ail-gydbwyso adnoddau ac arbenigedd staff er mwyn gallu ymateb i drefniadau craffu ar ôl Brexit a pharhau i fodloni disgwyliadau'r Aelodau.

## Rheoli risg

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Cynulliad wedi cael diweddariadau am y mesurau rheoli a'r camau gweithredu sydd ar waith i asesu goblygiadau'r gwahanol ganlyniadau Brexit ar fusnes ac ar wasanaethau corfforaethol, ac i liniaru unrhyw risgiau.

Mae'r mesurau rheoli a'r camau gweithredu canlynol ar waith:

- Gwaith rheolaidd ar gynllunio senarios gyda swyddogion o bob rhan o'r Comisiwn yn asesu beth allai gwahanol senarios Brexit eu golygu i fusnes y Cynulliad a'r adnoddau sy'n ei gefnogi.

- Ymarferion sicrwydd rheolaidd yn bwrw golwg ar barodrwydd y Comisiwn ar draws gwasanaethau corfforaethol, yn enwedig os bydd dim bargen. Roedd hyn yn cynnwys adolygu ein cynlluniau ar gyfer y posibilrwydd o adalw'r Cynulliad yn ystod y toriad a dysgu gwersi o'r adalw yn ystod toriad yr haf; asesiad o'r effaith bosibl ar gontractau gwasanaeth a chyflenwi mawr y Comisiwn; sut y gallai'r Cynulliad ymdrin ag unrhyw aflonyddwch sifil a phrotestiadau; goblygiadau i'n cyflogeion presennol a'n gweithdrefnau fetio yn sgil newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit; ac effaith Brexit dim bargen ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad.

- Pwynt canolog ar gyfer cydgysylltu gwaith Brexit y Cynulliad, gyda goruchwyliaeth gan uwch swyddogion, yn ein galluogi i rannu gwybodaeth a nodi materion neu broblemau a allai godi. Mae swyddogion yn cwrdd bob wythnos i rannu gwybodaeth, ac i gynllunio a nodi blaenoriaethau sy'n codi neu weithgareddau sydd angen eu datblygu.

- Gwaith paratoi ar rôl y Cynulliad wrth graffu ar Brexit y tu hwnt i'r diwrnod ymadael a'r trefniadau a'r strwythurau sydd eu hangen yn gysylltiedig â'r rhain, fel newidiadau i'r Rheolau Sefydlog neu gylch gwaith y pwyllgorau.

- Defnydd parhaus o Fframwaith Academaidd Brexit i ychwanegu capasiti ac arbenigedd drwy adnodd allanol, gan ein galluogi i ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau neu faterion cymhleth.

- Sesiynau hyfforddi ar gyfer Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn i sicrhau ymwybyddiaeth o ddatblygiadau allweddol ynghylch Brexit ac i gynyddu arbenigedd.

- Defnyddio adnoddau ychwanegol i gefnogi busnes y Cynulliad sy'n gysylltiedig â Brexit i wella gwytnwch.

- Deialog reolaidd rhwng y Llywydd a Chadeiryddion y Pwyllgorau drwy'r Fforwm Cadeiryddion ynghylch llwyth gwaith, adnoddau a blaengynllunio.

- Cysylltu'n rheolaidd â Seneddau eraill y DU drwy sianeli a arweinir gan Aelodau fel y Fforwm Rhyng-seneddol ar Brexit, a rhwng swyddogion ar bob lefel.

- Trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol â swyddogion Llywodraeth Cymru.

- Strategaeth gyfathrebu i dynnu sylw cynulleidfaoedd mewnol ac allanol at waith a gweithgaredd ar draws y Cynulliad.

- Paratoadau ar gyfer unrhyw aflonyddwch sifil/protestiadau a sgyrsiau rheolaidd â Heddlu De Cymru, sy'n paratoi ar gyfer Brexit fel rhan o'u strategaeth genedlaethol.

Mae'r dull hwn yn golygu ein bod wedi gallu nodi materion y mae angen mynd i'r afael â nhw, a chynllunio ar eu cyfer, cyn gynted â phosibl. Mae ein hanghenion o ran adnoddau yn cael eu hadolygu'n gyson fel ein bod gallu parhau i fodloni disgwyliadau'r Aelodau.

Comisiwn y Cynulliad
22 Hydref 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** AC/164/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 24 Hydref 2019

Annwyl Nick

## Adrodd yn y Sector Cyhoeddus - y sefyllfa yn Seland Newydd

Pan oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd hyd yma yn ei ymchwiliad i adroddiad blynyddol a chyfrifon 2018-19 Llywodraeth Cymru, cynigiais roi peth gwybodaeth i'r aelodau am y dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Seland Newydd o gynnal adrodd allanol. A derbyn ein tebygrwydd amlwg i'r Alban, rwyf hefyd yn cyffwrdd â datblygiadau diweddar yn y fan honno o ran adrodd ariannol.

Mae'r egwyddor o adrodd yn agored a thryloyw ar gynlluniau a gweithgareddau'r llywodraeth wedi ei hen sefydlu yn Seland Newydd. 30 mlynedd yn ôl daeth i fod y wlad gyntaf yn y byd i symud o gyfrifyddu seiliedig ar arian parod i gyfrifyddu ar sail croniadau ar gyfer ei gweithrediadau sector cyhoeddus, dan ei deddf oedd yn torri tir newydd, sef Deddf Arian Cyhoeddus 1989.

Cychwynnodd Llywodraeth y DU, ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig, i lawr yr un llwybr ddeng mlynedd yn ddiweddarach dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, ond mae'n deg dweud bod arferion adrodd presennol yn y sector cyhoeddus yn Seland Newydd yn parhau i fod ar y blaen i'r DU a chenhedloedd datblygedig eraill hefyd o gwmpas y byd.

Fel dim ond un esiampl o hyn: cyhoeddodd Llywodraeth Seland Newydd ei set gyntaf o gyfrifon y Llywodraeth gyfan yn ôl yn 1991; mae Llywodraeth y DU wedi gwneud hynny bob blwyddyn ers 2011. Ymrwymodd Llywodraeth yr Alban yn 2016 i wneud hynny (gan ddisgwyl cymryd drosodd ei phwerau cyllidol a'i phwerau benthyca newydd) ac ailgadarnhaodd y bwriad hwnnw i Bwyllgor Craffu Archwilio Cyhoeddus ac Ôl-ddeddfwriaethol Senedd yr Alban ym mis Tachwedd 2018.

Mae Llywodraeth Seland Newydd hefyd yn cyhoeddi cyfrifon misol, sy'n rhoi gwybodaeth, bron mewn amser real, i'w Senedd ac i'r cyhoedd am ei gwariant o fewn y flwyddyn.

Yr hyn sydd gan Lywodraeth Seland Newydd sy'n cyfateb agosaf i adroddiad blynyddol a chyfrifon Llywodraeth Cymru yw Adroddiad Blynyddol y Trysorlys a Datganiadau Ariannol Llywodraeth Seland Newydd. Cyhoeddwyd eu

hadroddiadau diweddaraf, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2019, yn gynnar ym mis Hydref. Yn neilltuol, mae Adroddiad Blynyddol y Trysorlys yn gosod amrywiaeth eang o wybodaeth allan i'r darllenydd, wedi ei chyflwyno mewn arddull glir a diddorol, ac mae'n cynnwys gwybodaeth helaeth am dargedau, perfformiad a chanlyniadau.

Mae adrannau eraill o Lywodraeth Seland Newydd yn cynhyrchu eu hadroddiadau blynyddol eu hunain, megis ar gyfer Gweinyddiaeth Datblygiad Cymdeithasol a'r Weinyddiaeth Addysg. O'u cymryd gyda'r cyfrifon blynyddol, mae'r adroddiadau adrannol hyn gyda'i gilydd yn rhoi darlun cynhwysfawr o gynnydd, cyflawniadau a llwyddiannau.

Yn fwyaf diweddar, mae Llywodraeth Seland Newydd wedi arloesi gyda chyllidebu llesiant ac, ym mis Mai 2019, gosododd hyn wrth galon ei chynllunio cyllid cyhoeddus yng Nghyllideb Llesiant gyntaf y byd. Mae Cymru, wrth gwrs, ar y blaen o ran meddwl yn y maes hwn, a derbyn *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, oedd yn torri tir newydd. Tra mae ein dull ni yng Nghymru wedi bod yn ddeddfwriaethol, yn Seland Newydd gosodir mwy o bwys ar benderfyniadau cyllidebol ac atebolrwydd i yrru newid yn ei flaen. Rhydd dogfen cyllideb llesiant Seland Newydd esboniad clir o'r gwariant blynyddol a neilltuir i bob un o flaenoriaethau datganedig y llywodraeth a'r dangosyddion sydd i gael eu defnyddio i asesu cynnydd yn eu herbyn. Yn bwysig, mae hefyd yn cynnwys Strategaeth Gyllidol, yn egluro rhagamcanion tymor canol trethiant, benthyciadau a gwariant, o fewn cyd-destun amcanion cyllidol tymor hir y llywodraeth.

Ym mis Mai eleni, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ail argraffiad o'i strategaeth ariannol tymor canol bum-mlynedd hi ei hun, Scotland's Fiscal Outlook. Mae'r strategaeth flynyddol honno yn tarddu o argymhelliad yn 2017 gan Grŵp Adolygu Proses Cyllideb Senedd yr Alban. Hyd yma, nid oes cyhoeddiad cyfatebol yn ymdrin â materion ariannol cyhoeddus Cymru. Er bod hon yn un esiampl lle mae'r Alban ar y blaen i ni, mae ganddynt hwythau hefyd beth ffordd i fynd yn nhermau tryloywder ariannol cynhwysfawr. Mae'r ymdriniaeth ddiweddaraf ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth yr Alban, gan Archwilydd Cyffredinol yr Alban, yn tynnu sylw at hyn:

*"The Scottish Government needs to improve the quality of financial reporting to better support Parliament. In May 2019, the Scottish Government published its second medium-term financial strategy, but it does not reflect all the basic components of a medium-term financial plan. It does not include indicative spending plans or priorities, or links to outcomes… In addition, the government has still not fulfilled its commitment to publish a consolidated account covering the whole devolved public sector in Scotland. This would fill an important gap and improve strategic public financial management, support Parliamentary scrutiny and enable better decision-making[1]."*

---

[1] The 2018/19 audit of the Scottish Government Consolidated Accounts

Mae hyn yn crynhoi'n dwt rai o'r camau allweddol y mae angen i ni eu cymryd yng Nghymru os ydym i arddangos arfer gorau o ran cyllidebu ariannol ac adrodd. Ac mae'r rhain yn eu tro yn adlewyrchu llawer o'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Ariannol y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cynulliad blaenorol, yn ei ddau adroddiad ar *Arferion Gorau o ran y Gyllideb*[2]. Canolbwyntiai adroddiadau'r Pwyllgor ar gamau i gryfhau trefniadau ariannol yng ngoleuni trosglwyddo cyfrifoldebau cyllidol i'r Cynulliad. Gwnaeth argymhellion, er enghraifft, gyda golwg ar yr angen i alinio cyllidebau â dangosyddion a mesurau cyflawni, mantais cael Cyfrif Llywodraeth Gyfan Cymru a phwysigrwydd cyhoeddi cynlluniau a rhagolygon cyllid cyhoeddus blaengar. Mae'r rhain yr un mor berthnasol heddiw ag yr oeddent yr adeg honno.

Gobeithiaf y bydd y deunydd hwn o gymorth i'r Pwyllgor gyda'i ymchwiliad sydd yn parhau.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

[2] Y Pwyllgor Cyllid - Adroddiadau Cyflawn - y Pedwerydd Cynulliad

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Elin Jones, AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd CF99 1NA

14 Tachwedd 2019

Annwyl Elin,

**GORCHYMYN ARDRETHU ANNOMESTIG (LLUOSYDD) (CYMRU) 2019**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Gorchymyn Adrethu Annomestic (Lluosydd) (Cymru) 2019, dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2020, ddarostyngedig i gytundeb y Cynulliad. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd ym mharagraff 5(15) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r offeryn hwn cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol, neu cyn 1 Mawrth yn y flwyddyn ariannol flaenorol, pa un bynnag yw'r cynharaf, er mwyn iddo fod yn effeithiol. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 10 Rhagfyr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Gorchymyn a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf").

O ran Cymru, cyfrifir y lluosydd ardrethu annomestig ym mhob blwyddyn ariannol pan nad oes rhestrau newydd yn cael eu llunio yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf. Mae 2020 yn flwyddyn pan nad oes rhestrau newydd yn cael eu llunio.

Mae'r fformiwla ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn cynnwys eitem B, sef y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf i bennu, drwy Orchymyn, swm gwahanol ar gyfer eitem B. Os yw Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer hwnnw mewn perthynas â blwyddyn ariannol, rhaid i'r swm gwahanol a bennir felly fod yn is na'r mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol yw 291.0.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu mai swm eitem B ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020 yw 289.0.

Yn unol â pharagraff 5(15) o Atodlen 7 i'r Ddeddf, ni fydd y Gorchymyn ond yn dod i rym os yw'n cael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth y Gangen Polisi Trethi Llywodraeth Leol, yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Gorchymyn a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2019

*Gwnaed* *14 Tachwedd 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *19 Tachwedd 2019*

*Cymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru* ***

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir i'r Trysorlys gan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy i'r graddau y mae'r pŵer hwnnw yn arferadwy o ran Cymru(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i cymeradwyir drwy benderfyniad gan

(**1**) 1988 p. 41.
(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y pŵer o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'r graddau yr oedd yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pŵer bellach wedi ei freinio yng Ngweinidogion Cymru.

Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ar yr amod y cymeradwyir y Gorchymyn cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Y lluosydd ardrethu annomestig**

**2.** At ddiben paragraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020, pennir mai 289.0 yw B.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
14 Tachwedd 2019

**Explanatory Memorandum to the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2019**

This Explanatory Memorandum has been prepared by Local Government Strategic Finance Division and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2019.

**Rebecca Evans AM**
**Minister for Finance and Trefnydd**
**14 November 2019**

**Contents**

PART 1: EXPLANATORY MEMORANDUM 3
1. Description 3
2. Matters of Special Interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee 3
3. Legislative background 4
4. Purpose and Intended Effect of the Legislation 4

PART 2: REGULATORY IMPACT ASSESSMENT ........................................ 6

ANALYSIS OF OTHER EFFECTS AND IMPACTS........................................ 7

## PART 1: EXPLANATORY MEMORANDUM

### 1. Description

This Order sets the increase in the non-domestic rating (NDR) multiplier for Wales for the financial year 2020-21. It reflects the use of the Consumer Prices Index (CPI) rather than the Retail Prices Index (RPI) to calculate the multiplier.

Under the Local Government Finance Act 1988 (the 1988 Act), the annual increase in the multiplier should be calculated using the RPI figure for the September preceding the financial year to which the multiplier applies. For 2020-21 the RPI figure would have been 291.0.

The multiplier is applied to the rateable value (RV) of each non-domestic property to calculate its non-domestic rates bill. The Order applies the CPI figure in place of the RPI figure. This results in a smaller increase in the 2020-21 rates bills to be paid by businesses and other non-domestic property owners than would be the case if the RPI figure were used.

The formula used for calculating the NDR multiplier in a non-revaluation year is:

(A x B) / C.

A is the multiplier for the preceding financial year
B is the RPI for September of the preceding financial year
C is the RPI for September of the financial year two years before.

Welsh Ministers may substitute a figure for B which is less than the RPI figure. As CPI is used as the measure for increasing the multiplier, B is calculated based on CPI.

The substituted figure for B is calculated by taking the percentage change in CPI from September of the preceding financial year and September of the financial year two years before and multiplying by RPI for September of the financial year two years before. For 2020-21, B has been calculated as 289.0.

### 2. Matters of Special Interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

Under the 1988 Act, an order which enables the multiplier to be increased at below the level of RPI must be approved by the Assembly through an affirmative resolution procedure (paragraph 5(15) of Schedule 7 to the 1988 Act). Under the procedure, after the Order is made, it must be laid before the Assembly for approval.

The relevant provision specifically provides that the order must be approved by the Assembly before the vote on the Local Government Finance Reports (the final local government settlement and final police settlement) taking place. The

debate on the local government settlement for 2020-21 is expected to take place in February 2020.

## 3. Legislative background

Under the 1988 Act, for financial years in which new rating lists do not apply (ie. all years which are not revaluation years), the default position for determining the non-domestic rating multiplier for Wales is to apply the formula set out in paragraph 3B to Schedule 7 to the 1988 Act. An element in that formula is the RPI for September of the financial year preceding the year concerned. The financial year beginning 1 April 2020 is not a revaluation year and therefore there will not be a new rating list.

Under paragraph 5(3) of Schedule 7 to the 1988 Act, the Welsh Ministers have the power to increase a multiplier at below the level of inflation as measured by RPI. It is this power which the Welsh Ministers propose to exercise in making this Order.

As the Welsh Government is diverging from the normal practice of increasing the multiplier by RPI, Ministers are required, under paragraph 5(15) of Schedule 7 to the 1988 Act, after making the Order to limit the increase at below RPI, to lay it before the Assembly for approval.

The Order is subject to a made/provisional affirmative procedure and must be approved by the Assembly for it to be effective. It is also a requirement of the 1988 Act that any such Order is approved before the local government finance reports (for unitary authorities and police and crime commissioners) are approved by the Assembly. This requirement for prior agreement of the multiplier arises because it plays a vital part in calculating the total funding available in the annual settlements.

The debate on the Local Government Finance Report for unitary authorities for 2020-21 is expected to be scheduled for debate in early 2020. The debate to approve the Order is scheduled to take place on 10 December 2019.

## 4. Purpose and Intended Effect of the Legislation

The Order will have the effect of increasing the NDR multiplier by CPI rather than RPI for the financial year 2020-21. By applying CPI for 2020-21, the multiplier will be set at 0.535.

This will mean that non-domestic property owners and occupiers in Wales will receive lower rates bills for 2020-21 than they would have if RPI was used.

Primary legislation does not currently provide the Welsh Ministers with powers to permanently change the rate of inflation used to calculate the multiplier from RPI to CPI. Therefore, the Order will apply for 2020-21 only.

This follows on from 2019-20 where the change was achieved through subordinate legislation, the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) (No. 2) Order 2018.

All owners or occupiers of non-domestic properties who pay rates will benefit from the change. Even properties which receive significant amounts of rates relief will benefit as the residual amounts will be calculated using a lower multiplier.

All the non-domestic rates collected in Wales are pooled centrally and distributed to unitary authorities and to police and crime commissioners as part of the annual local government settlements. The total amount to be distributed in this way is known as the Distributable Amount. It is calculated by applying the multiplier to the estimated national total of rateable value, taking account of any surplus or deficit carried forward from previous years.

The Distributable Amount is a key component of the annual local government revenue settlements and the 1988 Act requires that it is approved by the Assembly as part of the annual local government finance reports. The multiplier therefore needs to be determined before the annual settlements can be finalised.

There is a clear purpose to the policy behind the legislation. It is aimed at supporting economic growth and reducing the tax liability for businesses and other non-domestic ratepayers in Wales, ensuring they are not at a disadvantage compared to other parts of the United Kingdom.

Using CPI rather than RPI to increase the multiplier in Wales will reduce the income into the non-domestic rates pool in 2020-21. The reduction will be fully funded by the Welsh Government and will be reflected in the calculations for the local government settlements so that there is no financial impact on local authorities.

CPI has been used to calculate the multiplier in Wales since 2018-19 and the Welsh Ministers have determined that CPI should be used to calculate the multiplier for future years. The use of CPI since 2018-19 has been achieved through annual orders. To make the change on a permanent basis requires primary legislation to amend the Local Government Finance Act 1988. It is intended that provisions are included in the Local Government and Elections (Wales) Bill to achieve this. It is expected that the amendment will have effect in time for the 2021-22 financial year.

## 5. Consultation

No consultation has been undertaken on the policy behind this Order. The policy position has not changed since this was agreed for the 2018-19 financial year. The proposals benefit all ratepayers in Wales and there is no impact on the resources available to local authorities.

## PART 2: REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

### Options

***Option 1 – Use RPI to increase the multiplier***

This option would increase the multiplier for 2020-21 by RPI at September 2019 (2.40%), resulting in a multiplier of 0.539.

***Option 2 – Increase the multiplier by the equivalent of CPI***

This option would increase the multiplier for 2020-21 by CPI at September 2019 (1.78%), resulting in a multiplier of 0.535.

### Costs and benefits

***Option 1 – Use RPI to increase the multiplier***

The following illustrates the effect of using RPI to increase the multiplier on the non-domestic rates bill of a property.

For example, if a property has a rateable value (RV) as assessed by the Valuation Office Agency of £15,000, the rates bill for 2019-20 (before any reliefs) would have been:

RV   £15,000 x 0.526 = £7,890

Applying RPI would result in an annual rates bill for 2020-21 of:

RV   £15,000 x 0.539 = £8,085

The increase in the annual charge would therefore be £195.

***Option 2 – Increase the multiplier by the equivalent of CPI***

This option would result in a lower increase in rates bills for all non-domestic properties than under RPI. Using the example from Option 1.

The rates bill for 2019-20 was:

RV   £15,000 x 0.526 = £7,890

An increase using CPI for 2020-21 would give a bill of:

RV   £15,000 x 0.535 = £8,025

The increase in rates for the property would therefore be £135, £60 less than if RPI were used.

The total saving to non-domestic ratepayers across Wales is estimated at around £10m.  This would be a recurrent saving as the multiplier cannot be increased at a level above RPI in future years.

**Option selection**

The cost of limiting the increase in the multiplier (Option 2) would be borne by the Welsh Government.  There would be no financial impact on local authorities.  The approach also means that ratepayers in Wales would not be at a disadvantage compared to other parts of the UK.

Option 2 is therefore the preferred option.

**Analysis of other effects and impacts**

**Promoting Economic Opportunity for All (Tackling Poverty)**
Limiting the increase in the multiplier provides support for all ratepayers which could help to prevent hardship.

**UNCRC**
No particular impact on the rights of children has been identified.

**Welsh language**
No effect on the opportunities to use the Welsh language or the equal treatment of the language has been identified.

**Equalities**
No specific impacts, positive or negative, on persons who share a protected characteristic (as determined by the Equality Act 2010) have been identified.

**Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015**
Limiting the increase in the multiplier will assist all ratepayers and, as such, will help to contribute to the achievement of the wellbeing goals of a prosperous and a more equal Wales.

**Impact on voluntary sector**
Limiting the increase in the multiplier will benefit all ratepayers including those operating in the voluntary, charitable and not-for-profit sectors.

**Competition Assessment**
A competition filter test has been applied to the Order.  As the change benefits all ratepayers, no effect on competition within Wales is indicated.  Limiting the multiplier means that ratepayers in Wales are not placed at a disadvantage compared to other parts of the UK.

**Post implementation review**
The Welsh Government will monitor the impact of the change on the non-domestic rates pool.

Eitem 2.4

Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-30-19 PTN 4

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Dai Lloyd
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

31 Hydref 2019

Annwyl Dai,

**Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)**

Diolch ichi am fy ngwahodd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 23 Hydref ynghylch y Bil uchod. Yn ystod y sesiwn, addewais roi eglurder ar fater yr atebolrwyddau gwerth £100m y cyfeirir atynt ym Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil. Mae rhai materion hefyd y mae angen eglurder pellach arnynt yn fy marn i ar gyfer y Pwyllgor. Er hwylustod rwyf wedi strwythuro'r llythyr o dan wahanol benawdau.

**Sicrwydd indemniad**

Yn ystod fy ymatebion i'r Pwyllgor, ar adegau defnyddiais y termau “yswiriant indemniad” neu “yswiriant” neu “premiymau indemniad”. Er eglurdeb, roeddwn yn cyfeirio at ddarparu indemniad, nad yw'n gynnyrch yswiriant.

Mae Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol (FLS) ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol hanesyddol sy'n codi ar ôl 1 Ebrill 2019 a'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol (ELS) arfaethedig ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol a gododd cyn Ebrill 2019 yn sicrwydd indemniad yn ôl disgresiwn a seilir ar ddigwyddiadau (“occurrence based”).

Mae sicrwydd indemniad a seilir ar ddigwyddiadau'n wahanol i sicrwydd “hawliadau a wnaed” (“claims made”). O dan sicrwydd “hawliadau a wnaed”, os gwnaeth Ymarferydd Cyffredinol rywbeth esgeulus ac wedyn ymddeol y diwrnod nesaf, bydd angen i'r ymarferydd cyffredinol gael trefniadau wrth gefn (“run-off”) yn eu lle i dalu am unrhyw hawliadau a wneir ar ôl i bremiymau polisi beidio â chael eu casglu. Mae'r trefniadau wrth gefn hyn weithiau'n rhan o'r polisi, ond mewn achosion eraill mae angen i daliadau ychwanegol gael eu gwneud. Er hynny, gyda “sicrwydd a seilir ar ddigwyddiadau”, ar yr amod bod yr Ymarferydd Cyffredinol wedi talu tanysgrifiad y Sefydliad Amddiffyn Meddygol (MDO) ar yr adeg y digwyddodd y digwyddiad a achosodd hawliad wedyn, caiff yr Ymarferydd Cyffredinol ei ddiogelu am byth. Hyd yn oed pe bai'r ymarferydd cyffredinol yn os gwneud rhywbeth esgeulus ond yn ymddeol y diwrnod nesaf, a hyd yn oed os gwneir y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gŵyn a'r hawliad cyfreithiol yn erbyn yr Ymarferydd Cyffredinol dair blynedd wedyn, mae hyn yn golygu y caiff yr Ymarferydd Cyffredinol ei ddiogelu.

O dan gynlluniau ELS ac FLS, mae indemniad ar gyfer esgeuluster clinigol yn indemniad yn ôl disgresiwn sy'n adlewyrchu'r trefniadau ELS ac FLS yn Lloegr a threfniadau indemniad y Sefydliad Amddiffyn Meddygol (MDO). O dan indemniad yn ôl disgresiwn, bydd gan Weinidogion Cymru'r disgresiwn i setlo hawliad ar gyfer esgeuluster clinigol. Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y câi disgresiwn ei arfer.

**Cyfnodau cyfyngiadau ar gyfer cyflwyno hawliadau esgeuluster clinigol**

Nodir Cyfnodau cyfyngiadau ar gyfer cyflwyno hawliadau yn Neddf Cyfyngiadau 1980. Yn y bôn, y cyfnod ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol yw tair blynedd o ddyddiad y digwyddiad neu o'r dyddiad gwybodaeth os yw hwnnw yn ddiweddarach (fel y mae yn aml)/ Mae gan blant tan eu pen-blwydd yn 21 oed ac nid yw personau heb allu yn ddarostyngedig i gyfnod cyfyngiadau o gwbl.

**Cwmpas yr ELS a'r FLS**

Bydd y cynllun ELS ac FLS yn cwmpasu gweithgareddau'r holl gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol a fydd yn cynnwys atebolrwyddau clinigol sy'n deillio o weithgareddau staff practis Ymarferwyr Cyffredinol a gweithwyr proffesiynol meddygol eraill megis Ymarferwyr Cyffredinol cyflogedig, Ymarferwyr Cyffredinol sy'n locwm, fferyllwyr practis, nyrsys practis. Ni fydd yn cynnwys gwaith preifat, cwynion, cyfranogaeth yn achosion y crwner, gwrandawiadau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol na materion eraill. Ni fydd y cynllun yn cwmpasu deintyddiaeth gofal sylfaenol, deintyddiaeth gofal cymunedol, fferylliaeth gymunedol ac optometreg.

**Atebolrwyddau ELS i'w trosglwyddo i Lywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhwymo gan gytundebau peidio â datgelu â phob un o'r tri MDO oherwydd natur sensitif yr wybodaeth a'r trafodaethau. Felly, gwybodaeth gyfyngedig yn unig y gellir ei darparu i'r Pwyllgor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cynghorwyr ariannol allanol i gynnal diwydrwydd dyladwy ariannol mewn perthynas â'r tri MDO yn cwmpasu cyngor actiwaraidd ynghylch atebolrwyddau esgeuluster clinigol posibl yr aed iddynt cyn 1 Ebrill 2019. Mae'r diwydrwydd dyladwy ariannol wedi cynnwys cyngor actiwaraidd mewn perthynas ag atebolrwyddau esgeuluster clinigol posibl yr aed iddynt cyn 1 Ebrill 2019. Gallai gwerth gwirioneddol yr atebolrwyddau wamalu yn ôl patrymau amlder hawliadau, hysbysiadau hawliadau a gwerth hawliadau sydd wedi'u setlo. Ni chaiff yr atebolrwyddau hyn eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru os gellir cytuno ar drosglwyddiad priodol o asedau â'r MDO sy'n cymryd rhan. Nid yw'r amcangyfrif o £100m am atebolrwyddau yn gost ddisgwyliedig i Lywodraeth Cymru am nad yw'n cymryd i ystyriaeth unrhyw drosglwyddiadau asedau o MDOs. Mae Llywodraeth Cymru'n hyderus bod yr amcangyfrif o atebolrwyddau a ddarparwyd gan y cynghorwyr allanol yn gadarn.

Os bydd atebolrwyddau'n fwy na'r amcangyfrif, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'r risg bod gwerthoedd hawliadau'n fwy na'r rhai a ragwelwyd trwy waith diwydrwydd dyladwy. Yn yr un modd, bydd Llywodraeth Cymru'n elwa ar unrhyw hawliadau sy'n cael eu setlo ar werth is gan y gallai atebolrwyddau wamalu yn ôl patrymau amlder hawliadau, hysbysiadau hawliadau a gwerth hawliadau sydd wedi'u setlo. Yn ogystal, mae rhyw lefel o amddiffyniad o fewn y contractau sy'n cael eu negodi os bydd atebolrwyddau'n digwydd bod yn sylweddol uwch na'r disgwyl ar ffurf rhyw fath o rannu risg ag MDOs sy'n cymryd rhan.

Ni ellir datgelu'r goblygiadau ariannol net yn achos Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phob MDO sy'n cymryd rhan am y byddai hyn yn torri'r cytundebau peidio â datgelu rhwng MDOs a Llywodraeth Cymru. Disgwylir i'r goblygiadau ariannol net yn achos Llywodraeth Cymru fod o fewn y ffiniau a nodwyd pan benderfynwyd ymrwymo i ELS. Yn dâl am hynny, byddai'r trefniadau ELS yn cryfhau sefydlogrwydd darpariaeth indemniad a fydd yn rhoi sicrwydd i gleifion mewn perthynas â hawliadau esgeuluster clinigol cyn Ebrill 2019 am iawndal. Bydd y trefniadau ELS hefyd yn sicrhau nad yw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru'n cael eu trin mewn ffordd sy'n eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu ag Ymarferwyr Cyffredinol lle y mae trefniadau ELS yn cael eu cyflwyno. Bydd hyn yn helpu i sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol ar recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol a gweithgarwch trawsffiniol.

**Effaith y Bil arfaethedig ar sefydliadau amddiffyn meddygol**

Nid oes gan y Bil unrhyw effaith ar yr MDOs. Mae'n darparu'r pŵer galluogi ar gyfer drafftio rheoliadau a fydd yn creu'r ELS.

**Y farchnad**

Byddai o gymorth egluro fy ymateb i gwestiynau terfynol Angela Burns AC ynghylch busnes MDOs a'm cyfeiriad at “failing market”. Gwnaed fy nghyfeiriad at fethiant yn y farchnad yng nghyd-destun gallu MDOs i gynnig cynnyrch fforddiadwy. Roedd fy ymateb yn adlewyrchu'r ffaith bod y llywodraeth yn ymyrryd yn y farchnad indemniad MDO o gofio cost gynyddol indemniad proffesiynol i Ymarferwyr Cyffredinol ac, yn enwedig, effaith y penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth y DU i newid Cyfradd Ddisgownt Anafiadau Personol (PIDR) 2.5% i finws 0.75% yn Chwefror 2017. Byddai hyn wedi golygu bod cost sicrwydd indemniad i Ymarferwyr Cyffredinol yn codi'n sylweddol, yn ôl 20% -25%, a fyddai wedi bod yn anymarferol i Ymarferwyr Cyffredinol. Bu'r penderfyniad i gyflwyno cynllun atebolrwyddau'r dyfodol (FLS) yn Ebrill 2019 o gymorth i fynd i'r afael â phryderon Ymarferwyr Cyffredinol ynghylch fforddiadwyedd costau indemniad proffesiynol ac mae wedi helpu i sicrhau ateb hirdymor cynaliadwy i fynd i'r afael â chostau cynyddol indemniad proffesiynol.

Gwnaed fy nghyfeiriad at fethiant yn y farchnad yn y cyd-destun hwn. Nid yw Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth ar gyfer indemniad proffesiynol i Ymarferwyr Cyffredinol. Nodaf y dystiolaeth a roddwyd wedyn gan MDDUS. Rwyf yn falch o nodi bod MDDUS yn sefydliad amddiffyn meddygol uchel ei barch sy'n cael ei reoli'n dda. Mae rheolaeth ariannol ddarbodus yn sail i'w waith.

**Casgliad**

Rwyf yn credu y bydd y trefniadau ELS yn cryfhau cadernid gwasanaethau meddygol cyffredinol ac yn darparu sicrwydd i gleifion mewn perthynas â hawliadau esgeuluster clinigol cyn hawliadau esgeuluster clinigol am iawndal cyn Ebrill 2019. Bydd y trefniadau ELS, a fydd yn cyd-fynd â threfniadau ELS yn Lloegr, hefyd yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar weithgarwch trawsffiniol o safbwynt recriwtio Ymarferwyr Cyffredinol, a allai fod yn wir os na chaiff trefniadau ELS Cymru eu cyflwyno, ac os bydd y trefniadau yng Nghymru'n wahanol i'r rhai yn Lloegr.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon